Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig

10 Hydref 2022

Annwyl Mr Crabb,

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Trefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Hoffwn roi gwybod bod Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi cynnal ymchwiliad i drefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r UE. Roedd hwn yn gyfle cychwynnol i ymchwilio'n fanwl i'r trefniadau ariannu newydd a lefel y cyllid y disgwylir i Gymru ei gael, ac mae'n bleser gennyf rannu ein hadroddiad â chi.

Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at y diffyg eglurder ynghylch y gwaith craffu sydd wedi'i wneud ar y Cronfeydd perthnasol a sut gellir sicrhau atebolrwydd o ran y penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'u gweithrediad yng Nghymru, gan gynnwys rôl y Senedd yn y broses honno. Efallai y byddwch yn cofio imi ysgrifennu atoch ym mis Gorffennaf 2021 i dynnu sylw at bryderon y Pwyllgor ynghylch y cyfathrebu anfoddhaol a fu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar faterion cyllidol, ac yn enwedig rôl y Senedd o ran craffu ar drefniadau cyllido sy'n effeithio ar Gymru, nad ydynt yn addas i'r diben yn ein barn ni.

Wrth i'r Cronfeydd newydd hyn ddatblygu ac ar ôl inni gael eglurder ynghylch cyllid y tu hwnt i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer 2024-25, rwy'n gobeithio y gallai fod cyfle i gydweithio ymhellach â'ch Pwyllgor chi, o ystyried ein diddordeb cyffredin yn y maes hwn, fel bod unrhyw gyllid yn arwain at y canlyniadau gorau posibl i Gymru. Bydd y Pwyllgor yn cynnal dadl ar ein hadroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Rhagfyr 2022. Gallwch wylio'r trafodion ar Senedd.TV.

Yn gywir,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.